



Cambrian Buildings
Mount Stuart Square
Cardiff CF10 5FL

Adeiladau Cambrian
Sqwâr Mount Stuart
Caerdydd CF10 5FL

Mr Simon Dean
Prif Weithredwr dros dro
Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr
Ysbyty Gwynedd
Penrhosgarnedd
Bangor, LL57 2PW

10 Awst 2015

Annwyl Mr Dean,

Adolygiad o Gartrefi Gofal: Dadansoddiad o'ch ymateb terfynol

Rwy'n ysgrifennu i ddiolch i chi am roi ymateb terfynol i'm Hanghenion Gweithredu, sef ymateb yr wyf wedi cael cyfle i'w ddadansoddi bellach.

Wrth ddadansoddi'r ymateb a ddaeth i law, roeddwn i'n chwilio am sicrwydd, drwy'r wybodaeth a roddwyd a thrwy'r camau a oedd ar eu hanner neu yn yr arfaeth, y bydd fy Anghenion Gweithredu'n cael eu rhoi ar waith ac y bydd y canlyniadau arfaethedig yn cael eu cyflawni ar ran pobl hŷn.

Mae'ch ymateb yn dangos ymrwymiad i gyflawni'r newid angenrheidiol a amlinellais yn fy Adolygiad o Gartrefi Gofal ac mae'n manylu ar gamau rydych chi wedi'u cymryd neu y byddwch yn eu cymryd er mwyn cyflawni nifer o'r canlyniadau arfaethedig. Mae'n dda gen i eich bod wedi manylu ar y cyd-Gyfarwyddwyr arweiniol ar gyfer gwneud y gwaith hwn, a byddwn yn disgwyl i hyn gynnwys gweithdrefnau adolygu a chlориannu er mwyn rhoi sicrwydd ar lefel uchel yn eich sefydliad y bydd y canlyniadau angenrheidiol yn cael eu cyflawni.

Mae'n dda gweld eich bod wedi ffurfio cysylltiadau â'ch cydweithwyr yn yr Awdurdodau Lleol er mwyn dechrau gweithio ar y cyd, ac rwy'n croesawu'r ffaith bod statws 'RAG' tryloyw wedi cael ei gynnwys gan fod hwnnw'n dangos yn agored sut mae'ch sefydliad yn clориannu ei gynnydd ynglŷn â phob Angen Gweithredu. Mae'ch ymateb yn dangos gwelliant ers yr adborth adeiladol a roddais yn gynharach eleni. Mae hyn yn cynnwys datblygu gwasanaethau neu brosesau newydd sydd â'r potensial i symud ymlaen fel arferion gorau, er enghraifft, rhoi gwasanaeth ymataliaeth arbenigol newydd ar waith (Angen



Gweithredu 1.3) a phenodi Cynghorydd Gofal Dementia (Angen Gweithredu 3.4).

Gan hynny, rwy'n fodlon bod eich sefydliad eisoes yn cydymffurfio â'r rhan fwyaf o'm Hanghenion Gweithredu neu wedi ymrwymo i gymryd y camau angenrheidiol i gyflawni'r newid angenrheidiol. Serch hynny, rhaid imi nodi bod pump maes o hyd lle mae angen rhagor o waith er mwyn rhoi sicrwydd imi y bydd y newid a'r gwelliant angenrheidiol yn cael eu cyflawni ar ran pobl hŷn.

Mae dadansoddiad manwl wedi'i atodi o'r wybodaeth ychwanegol a roesoch mewn ymateb i'm cais.

Fel y gwyddoch, o dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006 mae'n ofynnol imi gadw cofrestr o'r ymatebion i'm Hanghenion Gweithredu ac felly bydd yr holl ymatebion gan y cyrff sy'n dod o dan fy Adolygiad yn cael eu cyhoeddi ar fy ngwefan ynghyd â'r dadansoddiad o bob ymateb.

Fel y dywedais yn barod, byddaf yn cyhoeddi sylwebaeth gyffredinol ynghylch a ydw i'n credu y bydd y newid yr wyf yn disgwyl ei weld ar ran pobl hŷn yn cael ei wireddu ledled Cymru ac rwy'n bwriadu gwneud datganiad cyhoeddus ffurfiol am hyn ac am y camau y mae'r cyrff unigol sy'n dod o dan yr adolygiad yn bwriadu eu cymryd. Caiff y datganiadau hyn eu gwneud ar 11 Awst..

Rwy'n bwriadu cynnal adolygiad dilynol ymhen 18 mis, pryd y byddaf yn chwilio am dystiolaeth bendant bod y canlyniadau yr wyf yn disgwyl eu gweld wedi'u cyflawni'n gyson ar draws cartrefi gofal eich ardal. Yn nes ymlaen, byddaf yn rhoi gwybod ichi am hyd a lled yr adolygiad a'r dull y byddaf yn ei ddefnyddio.

Er hynny, mae yna nifer o feysydd y bydd arna i angen diweddariad a sicrwydd yn eu cylch yn y cyfamser ac fe fyddaf yn ysgrifennu atoch ar wahân ynglŷn â'r rhain a sut y byddaf yn gofyn ichi wneud hyn.

Rwy'n edrych ymlaen at barhau i gydweithio â chi i sicrhau bod gan bobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal yng Nghymru yr ansawdd bywyd gorau posibl a'r safonau gofal uchaf.

Yn gywir



Sarah Rochira
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi croesawu'r adborth cadarnhaol a roddais, ac mae wedi derbyn ac wedi cydnabod y casgliadau cychwynnol a luniais pan gyflwynodd y Bwrdd Iechyd ei ymateb cychwynnol i'r Anghenion Gweithredu perthnasol yn 'Lle i'w Alw'n Gartref?'. Rwy'n croesawu'r ffaith bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud cysylltiadau â'i gydweithwyr yn yr Awdurdodau Lleol i ddechrau gweithio ar y cyd a chyfathrebu â'i gilydd i helpu'r Adolygiad.

Angen Gweithredu 1.3

Casgliad Terfynol - Derbyniol

1.3 Dylai cefnogaeth ymataliaeth arbenigol fod ar gael i bob cartref gofal er mwyn cefnogi arferion gorau o ran gofal ymataliaeth, a hynny'n seiliedig ar ganllawiau cenedlaethol eglur o ran defnyddio cymhorthion ymataliaeth ac urddas.

Mae yna nifer o ymrwymadau cadarnhaol a wnaed gan y Bwrdd Iechyd a chamau y bydd yn eu cymryd a ddylai ei alluogi i roi gwell cymorth i bobl hŷn barhau eu gallu i ymatal ac i ddefnyddio'r toiled yn annibynnol. Er enghraifft, rwy'n croesawu'r ffaith bod y Bwrdd Iechyd wedi rhoi hyfforddiant mewn medrau clinigol i bob aelod o staff cartrefi nyrsio, ac wedi gwneud gwaith archwilio i fonitro ansawdd y gwasanaethau.

Codais bryder ynglŷn ag ymateb cychwynnol y Bwrdd Iechyd i'r Angen Gweithredu hwn, sef na ddangoswyd digon o ddealltwriaeth o brofiadau pobl hŷn a'r realiti ynglŷn â'u mynediad nhw i ofal ymataliaeth. Mae'n dda gen i fod y Bwrdd Iechyd wedi derbyn fy nghasgliad cychwynnol bod ei ymateb yn rhannol dderbyniol, a'i fod wedi ymateb yn uniongyrchol i'm pryder i drwy ddweud bod gwaith yn cael ei wneud bellach i gasglu profiadau unigolion ac i fonitro mynediad unigolion i'r gwasanaethau ymataliaeth yn gyson. Er fy mod yn croesawu'r ymrwymadau a'r camau hyn, byddwn yn disgwyl gweld amserlenni clir ar gyfer cwblhau'r gwaith, a byddai wedi bod yn fanteisiol pe bai unrhyw ganfyddiadau cynnar o'r gwaith hwn wedi cael eu cynnwys yn yr ymateb.

Mae'r ymateb yn dweud bod unigolyn cyfrifol wedi'i enwebu erbyn hyn a bod y person hwnnw wrthi'n llunio cynllun gweithredu. Er y dylai'r dull hwn alluogi'r Bwrdd Iechyd i fonitro'r cynnydd yn ansawdd ac effaith y gwasanaethau hyn yn ofalus, yn y tymor hirach byddwn yn disgwyl i'r unigolyn neu'r swydd gael ei enwi yn yr ymateb ei hun.

Angen Gweithredu 1.6

Casgliad Terfynol - Rhannol

1.6 Cynigir eiriolaeth annibynnol i bobl hŷn o dan yr amgylchiadau canlynol:

- pan fo pobl hŷn mewn perygl, neu yn dioddef camdriniaeth gorfforol, emosiynol, ariannol neu rywiol.
- lle mae cartref gofal yn cau neu berson hŷn yn symud oherwydd bod eu hanghenion gofal wedi newid.
- pan fo person hŷn angen cymorth i'w helpu i adael yr ysbyty.

Yn achos y rhai sydd â chapasiti anwadal neu anawsterau cyfathrebu, dylai hwn fod yn eiriolaeth na chyfarwyddir.

Pan fo pryderon cynyddol ynglŷn â chartref gofal, mae'n rhaid i breswylwyr gael mynediad i eiriolaeth na chyfarwyddir.

Mae nifer o ymrwymïadau cadarnhaol y mae'r Bwrdd Iechyd wedi'u gwneud, a chamau y bydd yn eu cymryd, sydd â'r potensial i wella mynediad i eiriolaeth ar gyfer pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal.

Er enghraifft, rwy'n croesawu'r ffaith bod polisi rhanbarthol ynghylch Pryderon Cynyddol wedi'i ddatblygu i gynnwys gofyniad ynglŷn ag eiriolaeth, a hynny drwy weithio mewn partneriaeth â'r awdurdodau lleol. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn dweud bod yna ymarfer cwmpasu rhanbarthol hefyd o dan arweiniad Canolfan Comisiynu'r Gogledd er mwyn asesu pa mor hygyrch yw gwasanaethau eiriolaeth ar draws y Gogledd. Fe allai'r camau hyn wella'r wybodaeth am fynediad i eiriolaeth ar draws y rhanbarth gan helpu pobl hŷn i sicrhau eu hawliau, sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed a bod eu pryderon yn cael sylw mewn sefyllfaoedd lle y gallen nhw fod yn agored i niwed.

Rwy'n croesawu'r camau hyn, yr ymrwymiad clir i weithio ar y cyd â phartneriaid ar draws y rhanbarth a hefyd y ffaith bod y Bwrdd Iechyd wedi derbyn fy nghasgliad cychwynnol bod yr ymateb yn rhannol dderbyniol. Er hynny, rwy'n disgwyl gweld amserlen glir a chynllun gweithredu er mwyn sicrhau bod eiriolaeth annibynnol ar gael yn yr holl sefyllfaoedd sydd wedi'u rhestru yn yr Angen Gweithredu. Mae'n siom nad yw'r ymateb yn cynnig eglurder ynglŷn â'r amserlenni ar gyfer y gwaith y cyfeirir ato ac nad oes cyfeiriad o hyd at eiriolaeth heb ei chyfarwyddo.

Angen Gweithredu 2.2

Casgliad Terfynol - Derbyniol

2.2 Mae gan bobl hŷn fynediad i wasanaethau arbenigol a, phan fo hynny'n briodol, i ofal amlddisgyblaethol a ddyluniwyd i gefnogi adsefydlu yn dilyn cyfnod o afiechyd.

Rwy'n croesawu'r ffaith bod y Bwrdd Iechyd yn cydnabod fy nghasgliad cychwynnol bod ei ymateb yn annerbyniol, a bod ei ymateb i'r Angen Gweithredu hwn bellach yn dangos ymrwymiad clir i wella mynediad i ofal arbenigol ac amlddisgyblaeth sy'n galluogi pobl hŷn i gynyddu eu hannibyniaeth a'u hansawdd bywyd i'r eithaf, yn enwedig ar ôl cyfnod o salwch.

Mae'n dda gweld bod adolygiad o fynediad ac o'r ddarpariaeth gwasanaethau ar y gweill ac y bydd model newydd o wasanaethau yn cael ei roi ar waith er mwyn sicrhau mynediad teg i'r gwasanaethau hyn ar draws y rhanbarth. Heb fynediad teg, bydd y risg yn parhau mewn rhai ardaloedd ar draws y rhanbarth y gall pobl hŷn fod yn llai symudol, yn fwy eiddil ac yn llai annibynnol, gan wynebu risg uwch o broblemau iechyd arwyddocaol.

Mae'r ymateb yn cynnwys amserlenni clir ar gyfer cwblhau'r camau sydd wedi'u nodi, gan ddweud bod cynllun prosiect wedi'i sefydlu a bod arweinydd wedi'i enwebu. Er y dylai'r dull hwn alluogi'r Bwrdd Iechyd i fonitro'r cynnydd yn ansawdd ac effaith y gwasanaethau hyn yn ofalus, yn y tymor hirach byddwn yn disgwyl i'r unigolyn neu'r swydd gael ei enwi yn yr ymateb ei hun.

Angen Gweithredu 3.4

Casgliad Terfynol - Rhannol

3.4 Datblygu cefnogaeth iechyd meddwl a lles arbenigol amlddisgyblaethol, mewngymorth ar gyfer pobl hŷn mewn cartrefi gofal, a sicrhau ei fod ar gael, yn cynnwys:

- Asesu iechyd meddwl a lles pobl hŷn fel rhan o'u gofal cychwynnol ac asesu datblygiad eu cynllun cefnogaeth a chynllunio eu gofal parhaus.
- Cyngor a chefnogaeth i staff gofal ynghylch sut i ofalu'n effeithiol am bobl hŷn ag anghenion lles meddyliol ac iechyd meddyliol, yn cynnwys dementia, a phryd i atgyfeirio.
- Llwybrau atgyfeirio amlwg a meini prawf ar gyfer atgyfeirio.
- Mae'r holl breswylwyr sydd yn cymryd cyffuriau gwrthseicotig yn cael eu monitro a'u hasesu ar gyfer y posibilrwydd o ddiddymu, ac mae adolygiadau yn cael eu cynnal yn unol â chanllawiau NICE.

Mae ymateb y Bwrdd Iechyd i'r Angen Gweithredu hwn yn manylu ar rai o'r camau cadarnhaol sydd ar y gweill ac a allai ategu gwell dealltwriaeth o anghenion pobl hŷn o ran iechyd a llesiant meddyliol, a'u mynediad i gymorth arbenigol sy'n eu galluogi i godi eu hansawdd bywyd i'r eithaf.

Er enghraifft, ar hyn o bryd mae'r Bwrdd Iechyd yn cynnal archwiliadau rheolaidd drwy ddefnyddio'r Dull Monitro Ansawdd yn y sector gofal nyrsio i fonitro'r defnydd ar lwybrau ac i ba raddau y mae'r canllawiau'n cael eu dilyn, ac i roi hyfforddiant priodol i'r staff o ganlyniad i'r archwiliad. Gan hynny, rwy'n croesawu'r ffaith bod y Bwrdd Iechyd yn cynnal ymarfer cwmpasu i asesu datblygiad model tebyg mewn cartrefi preswyl. Ar ben hynny, mae'n dda gweld bod y Bwrdd Iechyd wedi datblygu cyd-fanyleb gwasanaethau i bobl sydd â dementia rhwng yr Awdurdodau Lleol a'r Bwrdd Iechyd.

Codais bryder ynghylch ymateb cychwynnol y Bwrdd Iechyd i'r Angen Gweithredu hwn, sef nad amlygodd y Bwrdd Iechyd ddealltwriaeth o realiti mynediad pobl hŷn i'r gwasanaethau hyn, er enghraifft a yw'r cyfle i gael asesiad yn amserol neu beidio. Siom i mi yw nodi nad yw ymateb y Bwrdd Iechyd wedi mynd i'r afael â'r pryder hwn.

Rwy'n croesawu'r ffaith bod y Bwrdd Iechyd yn derbyn fy nghasgliad i fod ei ymateb cychwynnol yn rhannol dderbyniol yn unig, a bod unigolyn atebol wedi'i enwi i fwrw ymlaen â'r gwaith, ond nid yw'r ymateb terfynol yn cynnig y sicrwydd llawn yr hoffwn ei gael y bydd pobl hŷn yn gallu cael gafael ar y cymorth iechyd a llesiant meddyliol arbenigol amlddisgyblaeth, mewngymorth sydd wedi'i bennu yn yr Angen Gweithredu.

Angen Gweithredu 3.5

Casgliad Terfynol – Derbyniol

3.5 Mae gwybodaeth yn cael ei gyhoeddi'n flynyddol ynghylch defnyddio cyffuriau gwrthseicotig yn unol â chanllawiau NICE a Thargedau Deallus ar Gyfer Dementia Llywodraeth Cymru.

Mae ymateb y Bwrdd Iechyd i'r Angen Gweithredu hwn yn ymrwymo i adolygu'r contractau comisiynu â chartrefi nyrsio, a sefydlu'r system fonitro y mae ei hangen er mwyn casglu data ar ddefnyddio cyffuriau gwrthseicotig mewn cartrefi gofal yn y chwe mis nesaf. Rwy'n croesawu hyn am y bydd yn caniatáu i wybodaeth am ddefnydd cyffuriau gwrthseicotig mewn cartrefi gofal gael ei chyhoeddi ac am y dylai'r dull tryloyw hwn helpu i leihau defnydd amhriodol ar gyffuriau gwrthseicotig.

Angen Gweithredu 4.2

Casgliad Terfynol – Derbyniol

4.2 Mae cytundeb ffurfiol yn cael ei ddatblygu a'i weithredu rhwng y cartref gofal a gwasanaethau gofal sylfaenol ac arbenigol yn seiliedig ar y Datganiad o Hawliau. Dylai hyn gynnwys:

- Llwybrau atgyfeirio, yn cynnwys mynediad agored
- Amseroedd aros
- Gwybodaeth am atgyfeirio a rhyddhau
- Cyngor a gwybodaeth i gefnogi gofal parhaus y person hŷn yn y cartref
- Mynediad i wasanaethau arbenigol i bobl hŷn mewn cartrefi nyrsio yn unol â'r Canllawiau Hanfodion Gofal.

Barnwyd o'r blaen fod ymateb y Bwrdd Iechyd i'r Angen Gweithredu hwn yn dderbyniol. Gan hynny, does dim rhagor o ddadansoddi wedi bod.

Angen Gweithredu 4.3

Casgliad Terfynol – Derbyniol

4.3 Darperir gwybodaeth, cyngor a hyfforddiant pan fo'n briodol i staff gofal er mwyn sicrhau eu bod yn deall ac yn adnabod anghenion iechyd pobl hŷn yn ogystal â phryd a sut i atgyfeirio.

Codais bryder ynglŷn ag ymateb cychwynnol y Bwrdd Iechyd i'r Angen Gweithredu hwn, sef ei fod yn canolbwyntio ar staff cartrefi nyrsio a dod o hyd i anghenion iechyd drwy'r broses gofal iechyd parhaus yn unig, ac na fydd y broses yn cael ei defnyddio gan yr holl bobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal. Heb gyfle i gael gwybodaeth, cyngor a hyfforddiant i staff mewn cartrefi preswyl ac mewn cartrefi nyrsio, mae'n bosibl na fydd y staff gofal yn gallu deall anghenion iechyd pobl hŷn, a pha bryd a sut i gael gafael ar wasanaethau gofal sylfaenol ac arbenigol.

Mae'n dda gen i fod y Bwrdd Iechyd wedi derbyn fy nghasgliad cychwynnol mai rhannol dderbyniol oedd yr ymateb, a'i fod wedi ymateb i'r pryder hwn drwy ddweud bod cynllun peilot bach wedi'i gynnal i roi hyfforddiant, addysg a chyngor i gartrefi preswyl. Ar ben hynny, rwy'n croesawu'r ffaith bod y Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i gynnal adolygiad o'r adnoddau presennol sydd ar gael, gan anelu at sicrhau dull safonol ar draws yr holl gartrefi gofal yn y Gogledd.

Un cam cadarnhaol arall yw bod rhaglen dreigl flynyddol o hyfforddiant mewn meysydd arbenigol wedi'i datblygu erbyn hyn ac mae ar gael i holl staff y cartrefi gofal. Yn y tymor hirach, byddai angen i'r Bwrdd Iechyd ddangos dealltwriaeth o ba mor dda fu'r ymateb i'r hyfforddiant hwn, a pha wahaniaeth y mae wedi'i wneud i ansawdd bywyd pobl hŷn.

Mae'r ymateb yn dweud bod unigolyn cyfrifol wedi cael y dasg o roi'r rhaglen ar waith a bod amserlenni allweddol wedi'u nodi. Er y dylai'r dull hwn alluogi'r Bwrdd Iechyd i fonitro'r cynnydd yn ansawdd ac effaith y gwasanaethau hyn yn ofalus, yn y tymor hirach byddwn yn disgwyl i'r unigolyn neu'r swydd gael ei enwi yn yr ymateb ei hun.

Angen Gweithredu 4.4

Casgliad Terfynol – Rhannol

4.4 Wrth gyrraedd cartref gofal, mae pobl hŷn yn derbyn adolygiadau o feddyginiaethau gan weithiwr proffesiynol clinigol gymwys, ac adolygiadau rheolaidd o feddyginiaethau'n cael eu cynnal yn unol â'r arferion gorau a gyhoeddwyd.

Mae ymateb y Bwrdd Iechyd i'r Angen Gweithredu hwn yn esbonio sut mae'r Uned Gymorth i Fferyllfeydd Cymunedol, Ymarferwyr Cyffredinol a Gofal Sylfaenol yn gweithio i ddarparu adolygiadau meddyginiaethau ac i helpu i'w darparu. Rwy'n croesawu cydnabyddiaeth y Bwrdd Iechyd fod angen rhagor o waith sicrhau ansawdd ynglŷn â'r adolygiadau meddyginiaethau sy'n cael eu cynnal gan feddygon teulu o dan y gwasanaeth estynedig, a bod y Bwrdd Iechyd wedi ymrwmo i fwrw ymlaen â gwaith yn y maes hwn drwy'r Prif Fferyllfeydd a'r Timau Ardal. Fe allai'r camau hyn wella ansawdd yr adolygiadau meddyginiaethau sy'n cael eu cyflwyno drwy'r gwasanaeth hwn.

Serch hynny, er fy mod yn croesawu'r ffaith bod y Bwrdd Iechyd yn derbyn fy nghasgliad cychwynnol mai annerbyniol oedd yr ymateb ac er ei fod yn cynnig rhai sylwadau sydd i'w croesawu, mae yna ddiffyg sicrwydd o hyd o safbwynt cyfle pobl hŷn i gael adolygiad meddyginiaethau wrth gyrraedd cartref gofal, ac o ran yr amserlenni pryd y gallaf ddisgwyl gweld gwelliannau.

Angen Gweithredu 5.6

Casgliad Terfynol – Derbyniol

5.6 Sefydlu Cynllun Gwella Cenedlaethol er mwyn gwella cartrefi gofal ble mae Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd ac AGGCC wedi nodi ffactorau risg sylweddol a/neu barhaus ynghylch yr ansawdd bywyd neu'r gofal a ddarperir i breswylwyr a/neu dorri hawliau dynol o bosibl.

Dylai'r tîm gwella cenedlaethol ddefnyddio rheolwyr cartrefi gofal profiadol, yn ogystal ag ymarferwyr eraill, er mwyn darparu cefnogaeth ddwys a thrawsffurfiol er mwyn codi safonau ansawdd bywyd a gofal i

breswylwyr yn ogystal ag atal a lliniaru risgiau i ddiogelwch yn y dyfodol.

Dylai'r gwasanaeth hefyd ddatblygu ystod o adnoddau a deunyddiau hyfforddi er mwyn cynorthwyo cartrefi gofal sy'n dymuno gwella o ran hunanddatblygu a gwelliannau parhaus.

Rwy'n croesawu'r ffaith bod ymateb y Bwrdd Iechyd yn rhoi croeso pendant i ddatblygiad Gwasanaeth Gwella Cenedlaethol. Fe allai datblygu gwasanaeth o'r fath sicrhau bod gan gartrefi gofal y mae arnyn nhw eisiau ac angen gwella ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn gyfle i gael gafael ar gyngor, adnoddau a chymorth arbenigol sy'n arwain at well gofal a llai o risg.

Mae ymateb y Bwrdd Iechyd i'r Angen Gweithredu hwn hefyd yn cynnwys nifer o gamau cadarnhaol a ddylai fod yn fodd i arferion gwael gael eu nodi a'u helpu i wella. Er enghraifft, mae gwybodaeth yn cael ei rhannu ac mae asesiadau risg yn cael eu cynnal ar y cyd ac mae adroddiad misol am wybodaeth ar sefyllfa cartrefi gofal ar draws y Gogledd yn cael ei roi i'r Bwrdd.

Angen Gweithredu 6.2

Casgliad Terfynol – Derbyniol

6.2 Dylai darparwyr cartrefi gofal, comisiynwyr ac AGGCC ddatblygu ffyrdd anffurfiol a systematig o sicrhau eu bod yn deall ansawdd bywyd pobl hŷn yn well, drwy wrando arnynt yn uniongyrchol (nid drwy gwynion ffurfiol) a sicrhau y gweithredir ar y pryderon a leisir ganddynt.

Dylai adroddiadau blynyddol gael eu llunio ar sut mae adborth parhaus pobl hŷn wedi'i ddefnyddio i sbarduno gwelliant parhaus (gweler cam 6.10).

Barnwyd o'r blaen fod ymateb y Bwrdd Iechyd i'r Angen Gweithredu hwn yn dderbyniol. Gan hynny, does dim rhagor o ddadansoddi wedi bod.

Angen Gweithredu 6.8

Casgliad Terfynol – Derbyniol

6.8 Mae Byrddau Iechyd yn cynnwys y wybodaeth ganlynol mewn perthynas ag ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn mewn cartrefi gofal preswyl a nyrsio yn eu Datganiadau Ansawdd Blynyddol:

- defnydd amhriodol o gyffuriau gwrthseicotig
- mynediad i gefnogaeth iechyd meddwl a lles
- mynediad i atal cwympiadau
- mynediad i wasanaethau ail-alluogi
- cefnogaeth i gynnal golwg a chlyw

Datblygu meysydd eraill sydd i'w cynnwys fel rhan o ganllawiau DAB a gyhoeddir yn flynyddol.

Rwy'n croesawu'r ffaith bod ymateb y Bwrdd Iechyd i'r Angen Gweithredu hwn yn ymrwmo i gynnwys gwybodaeth am ansawdd bywyd yn ei Ddatganiad Ansawdd Blynyddol. Dylai hynny sicrhau y gall pobl hŷn weld gwybodaeth berthnasol ac ystyrlon am yr ansawdd bywyd sy'n cael ei darparu gan gartrefi gofal, a bod pawb yn fwy agored a thryloyw ynghylch ansawdd cartrefi gofal ledled Cymru.

Angen Gweithredu 7.3

Casgliad Terfynol – Derbyniol

7.3 Mae'r GIG yn gweithio â'r sector cartrefi gofal er mwyn ei ddatblygu fel rhan allweddol o'r llwybr gyrfa nyrsio, yn cynnwys darparu cefnogaeth datblygu proffesiynol a chymheiriaid llawn i nyrsys sy'n gweithio mewn cartrefi gofal.

Rwy'n croesawu'r ffaith bod y Bwrdd Iechyd yn derbyn fy nghasgliad cychwynnol mai rhannol dderbyniol oedd yr ymateb, a'i fod wedi dangos

ymrwymiad clir i integreiddio'r sector nyrsio a sector y cartrefi gofal yn llwybr gyrfa nyrsys. Heb yr ymrwymiad hwn, byddai'r risg yn parhau y bydd cartrefi gofal nyrsio'n cau oherwydd anawsterau o ran recriwtio nyrsys addas sydd â chymwysterau – neu fod pobl hŷn yn cael eu gosod mewn cartrefi gofal sy'n anaddas i fodloni eu hanghenion.

Mae ymateb y Bwrdd Iechyd i'r Angen Gweithredu hwn yn cynnwys nifer o gamau cadarnhaol, megis gosod myfyrwyr nyrsio mewn cartrefi nyrsio, datblygu fframwaith cymwyseddau i nyrsys a staff gofal, a datblygu cymhwyster i ymarferwyr sy'n ymwneud yn benodol â phobl hŷn. Ar ben hyn, rwy'n croesawu'r ffaith bod y Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i gynnal dadansoddiad o'r gweithlu er mwyn sicrhau gwell dealltwriaeth o resymau unigolion dros beidio ag ymuno â'r gweithlu mewn cartrefi nyrsio.

Fe allai'r camau hyn wella'r blaengynlluniau, y gwaith recriwtio a'r cymorth gyrfa er mwyn sicrhau bod yna nifer ddigonol o nyrsys i roi gofal nyrsio o safon ac i sicrhau deilliannau ansawdd bywyd i bobl hŷn mewn cartrefi nyrsio ledled Cymru.

Mae'r ymateb yn dweud bod unigolyn cyfrifol wedi cael y dasg o roi hyn ar waith a bod amserlenni allweddol wedi'u pennu. Er y dylai'r dull hwn alluogi'r Bwrdd Iechyd i fonitro'r cynnydd yn ansawdd ac effaith y gwasanaethau hyn yn ofalus, yn y tymor hirach byddwn yn disgwyl i'r unigolyn neu'r swydd gael ei enwi yn yr ymateb ei hun.